
# Y pren a'r coed

MANIFFESTO COEDWIGAETH A CHOED I GYMRU

MANIFFESTO ETHOLIAD CYMRU CONFOR 2021



Confor
Promoting forestry and wood
Hyrwyddo coedwigaeth a choed



# Egin glas gobaith

**Anthony Geddes**,, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Confor

'Dydy ni ddim wedi plannu digon o goed yng Nghymru ers blynyddoedd lawer- ond, o'r diwedd, mae pethau'n newid.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae dwy ffaith yn codi fy nghalon – mae ffermwyr a thirfeddianwyr am blannu coed ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian i gefnogi'r galw hwnnw.

Roedd Rownd 9 Glastir wedi ymrwymo i glustnodi £8 miliwn ar gyfer plannu coed ac, erbyn bod y 'ffenest' wedi cau ym mis Gorffennaf 2019, roedd y gronfa wedi derbyn 379 cais – digon i blannu mwy na 2,000 hectar o goedtir newydd (1000 o gaeau rygbi), sef hanner y 4,000 hectar y mae Llywodraeth Cymru am blannu "cyn gynted ag y bo modd".

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi clustnodi £9 miliwn i Rownd 10 Glastir. Mae'r ymateb cryf (200 datganiad o ddiddordeb, sef 3200 hectar o blannu newydd posibl) yn codi hyder parthed ag adeiladu momentwm ynghylch plannu coed.

Mae'r broses o greu coedwigoedd yng Nghymru yn mynd yn y cyfeiriad iawn, ond mae angen ymrwymiad a gweithredu gwleidyddol parhaus i gynnal y momentwm. Byddai naid o blannu 80 hectar yn 2019-20, i 2,000 hectar yn 2020-21 yn fan cychwyn gwych.

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (PNH) wedi cynnig y dylid creu 43,000 hectar ychwanegol o goetir yng Nghymru erbyn 2030, a 180,000 hectar erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru a busnesau coedwigaeth fel ei gilydd yn cydnabod bod angen adnoddau sylweddol i gefnogi'r plannu hyn, cynllun a fydd yn mynd i'r afael ag effeithiau niweidiol newid hinsawdd.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019, wedi'i ymrwymo at greu sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030, ac i gydgysylltu'r ymdrechion i wneud symudiad pendant o ddefnyddio tanwydd ffosil.

Ar yr un pryd, gall plannu coed, a'r gwaith o reoli'r coetiroedd greu swyddi a thwf, ac helpu cynnal cymunedau gwledig.

Mae'r diwydiant coedwigaeth yn tyfu, ac erbyn hyn yn cyflogi 11,000 o bobl, ac yn werth £665 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

Eto i gyd, mae plannu coed yng Nghymru yn araf a chymhleth. Fel mae'r graff ar y dde yn dangos, mae cryn waith i'w wneud cyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru, sef plannu 4,000 hectar o goed y flwyddyn – a chynyddu hyn tuag at y targed blynyddol o 6,000 hectar a gynigir gan y PNH. Un peth yw'r ymrwymiad at daro'r targed – i'w gyrraedd, mae angen gweithredu. Mae hynny'n golygu symleiddio'r prosesau plannu, buddsoddi parhaus gan y sector cyhoeddus, cynlluniau creadigol i ddatgloi buddsoddiad preifat a gwell hygyrchedd at y cynlluniau i ffermwyr tenant.

Mae angen ymrwymiad at gefnogi'r sgiliau a'r dechnoleg i gyflenwi'r plannu hyn – ac ymrwymiad clir gan y diwydiant adeiladu i ddefnyddio mwy o bren Cymru. Mae'r Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth diweddar yn dangos bod gan fusnes coedwigaeth Cymru awydd difrifol i fuddsoddi, addasu a ffynnu.

Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y buddion amgylcheddol ac economaidd yn arwyddocaol. Byddai cyfalwni'r targed blynyddol o 4,000 hectar hyd at 2045 yn gweld 20 % o dir Cymru o dan goedwigaeth, yn amsugno hyd at 40 miliwn tunnell o garbon deuocsid. Byddai cymysgedd o agro-goedwigaeth a phlannu ar y fferm yn darparu'r deunydd crai i adeiladu holl dai Cymru gan ddefnyddio adeiladwaith pren carbon-negyddol, a gallai coedwigaeth a phren ddatblygu'n ddiwydiant sy'n werth £1 biliwn+ yn flynyddol.

Bydd Confor yn cydweithio yn adeiladol gyda'r holl bleidiau gwleidyddol, a phawb sydd â diddordeb yn amgylchedd ac economi Cymru, i gyflawni'r buddion hyn.



# Plannu'r dyfodol yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn dweud bod angen cynyddu maint coedwigoedd Cymru o ychydig o dan 15 % i 21 % o arwynebedd y tir erbyn 2050. Byddai hyn dal yn llawer llai na'r mwyafrif o wledydd Ewrop; yn gyffredinol, mae coedwigoedd yn gorchuddio 46 % o dir 50 tiriogeth Ewrop.

Mae'r fath raddfa o gynnydd yn golygu plannu tua 180,000 hectar o goedwigoedd newydd rhwng 2020 a 2050 – 6,000 hectar y flwyddyn, sef y targed a osodwyd gan ymgynghorwyr annibynnol y Llywodraeth, y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

Mae'r targed hwn yn gyraeddadwy i Gymru – hyd yn oed o'r sylfaen isel presennol – gydag ewyllys gwleidyddol a chefnogaeth positif ffermwyr a thirfeddianwyr.

Pan mae'r polisïau cywir yn eu lle, mae'r dystiolaeth o'r Alban yn dangos bod modd cyrraedd a rhagori ar dargedau plannu coed. Mae 90 % o'r gwaith o blannu coed newydd yn yr Alban yn cael ei wneud gan y sector preifat. Mae'r cymysgedd o goed coniffer a llydanddail, at ddefnydd amwynder a chynhyrchu pren, yn digwydd ar draws y wlad. Nid oes unrhyw reswm, o fewn y fframwaith polisi cywir, paham na all Cymru fwynhau ffyniant tebyg o ran plannu coed – ac yna rheoli'r coedwigoedd hyn yn dda er mwyn tyfu coed Cymreig i'w defnyddio yng Nghymru.

Mae Confor yn credu bod y galw presennol am blannu coed yn golygu bod y targedau canlynol yn gyraeddadwy, ac yn gwahodd pawb i gefnogi'r targedau hyn.

Beth sydd wedi'i blannu dros y ddegawd ddiwethaf? (miloedd o hectarau)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0.30 | 0.76 | 0.91 | 0.93 | 0.1 | 0.11 | 0.41 | 0.2 | 0.67 | 0.08 |

Beth yw ein targedau am y ddegawd nesaf?

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.0 | 2.0 | 3.5 | 4.5 | 6.0 | 7.0 | 7.5 | 8.0 | 9.0 | 9.0 |

ASTUDIAETH ACHOS

# Williams Homes

Owain Williams yw Cyd-Rheolwr Gyfarwyddwr Williams Homes, sydd wedi'u lleoli yn y Bala, Gogledd Cymru. Dechreuodd y cwmni gynhyrchu fframau pren ar gyfer tai yn 2005 ac mae hefyd yn cynhyrchu ffenestri, grisiau a chladin pren, a chynhyrchion pren eraill ar gyfer y tŷ.



'Rydym wastad wedi mwynhau gweithio gyda choed – mae'n hardd ac yn gyfforddol, y peth cyntaf y mae pobl yn cyffwrdd â mewn cartref newydd. Roeddwn yn gwybod ei fod yn opsiwn cynaliadwy 'nôl yn 2005 ond, hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl, dim ond lleiafrif bach o bobl oedd am ddefnyddio pren oherwydd eu bod yn ystyried eu hôl-troed carbon. Roedd cymwysterau gwyrdd yn isel iawn ar flaenoriaethau y mwyfrif o bobl.

Mae newid dramatig wedi bod, ac mae pobl yn awr yn poeni ynghylch cynaliadwyedd. Yn ogystal â newid meddylfryd y cyhoedd, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi newid hefyd – maen nhw wir wedi annog adeiladu gan ddefnyddio pren, diolch i waith da WoodKnowledge Wales ac eraill.

Yn fy marn i, pren yw'r unig gynnyrch adeiladu carbon isel sydd yn gallu cael ei ddefnyddio i adeiladu tai yn dorfol at y dyfodol.

Mae meddylfryd cymdeithasau tai a chynghorau wedi newid. Tua chwe blynedd yn ôl, perswadiais tri neu bedwar o gymdeithasau tai - nad oeddent erioed wedi defnyddio pren i adeiladu eu tai - y dylent ddechrau ei ddefnyddio. Erbyn hyn, mae fframau pren yn gyffredin, ac i'w gweld ym mhobman.

Mewn rhai ffyrdd dw i'n credu taw newid agweddau oedd y rhan anodd. Ond mae gennym waith caled o'n blaen i blannu llawer mwy o goed, er mwyn sicrhau bod gennym gyflenwad hirdymor o goed brodorol i'w ddefnyddio yn yr adeiladau pren 'rydym am eu gweld yng Nghymru.

'Rydym yn defnyddio pren cynhenid, ond mae cael gafael ar y cynnyrch yn gynyddol anodd. Mewn rhai ffyrdd mae Cymru yn dioddef oherwydd ei llwyddiant ei hun o ran dadlau o blaid coed brodorol, oherwydd mae'r cyflenwad pren wedi datblygu i fod yn broblem go-iawn.

Rydw i'n derbyn dyfynbrisiau am bren wedi'i lifio, megis sbriws a ffynidwydd Douglas, sydd hyd at 30 % yn uwch nag yr oeddent y llynedd – ond dydw i ddim yn bwriadu mynd tramor i'w brynu, oherwydd fy mod wedi ymrwymo i ddefnyddio pren cynhenid o Gymru. Os ydy hynny'n golygu bod rhai talu ychydig yn ragor amdano, felly'n wir. Mae'n fater o egwyddor. Byddai'n ymestyn yn ddwfn i'm poced ac yn dal ati.

Yn syml iawn, does dim digon o bren ar gael, ac mae hyn wedi bod yn wir am amser hir iawn. Mae'n beth da bod mwy o alw am ddefnyddio pren, ond mae angen mynd i'r afael â'r diffyg.

Rhaid i ni blannu mwy, a rhaid gwneud hynny nawr. Yr amser gorau i blannu fyddai wedi bod 20 mlynedd yn ôl. Yn sicr, nawr yw'r amser gorau ond un.

Dw i'n trafod prosiect plannu hirdymor gyda Woodknowledge Wales a chymdeithas dai. Fel un sy'n defnyddio, pren hoffwn fod yn rhan o'r ymgyrch plannu coed.



ASTUDIAETH ACHOS

# Safn Coed

Mae Derek Morgan wedi treulio ei fywyd yn gweithio ar ei ffarm ddefaid, Safn Coed, yn Llangurig, ger Llanidloes, nid nepell o'r A470 yn Sir Drefaldwyn.

Roeddwn yn dynesu at 70 oed, ac nid oedd un o'n tri o blant am gymryd yr awennau ar ein ffarm ddefaid mynydd sydd wedi bod yn y teulu byth ers i'm tadcu ei phrynu yn 1947.

Y ffarm fach deuluol yw asgwrn cefn bywyd cefn gwlad Cymru, ond nid yw ffermio defaid mynydd mor broffidiol ag yr oedd ar un adeg. Roeddwn am ddarganfod llif incwm i amddiffyn y ffarm a chael rhywbeth yn weddill i adael i'r plant.

Roedd yn ymddangos mai plannu coed oedd yr ateb, felly derbyniais gymorth gan gynllun Creu Coetiroedd Glastir yn 2018 i blannu ychydig yn llai nag 20 hectar – ar dir mwy garw ym mhen uchaf y ffarm, tir nad oedd o werth at ddiben pori.

Gweithiais gyda Tilhill i blannu amrywiaeth eang o rywogaethau, gan gynnwys 45 % pefrwydd Sitka ac 11 % ffynidwydd Douglas. Bydd conifferau megis Sitka a Douglas, sy'n tyfu'n gyflym, yn darparu incwm hirdymor solet pan fyddant yn cael eu teneuo (ar ϕ12-15 years), a'u cywain wedi tua 30 mlynedd. Mae'r farchnad yno oherwydd bod y galw am bren yn cynyddu.

Roeddwn hefyd wedi plannu 12 % bedwen, 9 % pinwydd yr Alban a 5 % deri, ynghyd ag ardaloedd bychain o wern, aethnenni, poplys, coed criafol, coed cyll, masarn bach, ceirios duon ac afalau surion. Mae'n amrywiol iawn – ac wedi fy helpu i arallgyfeirio'r busnes.

Erbyn hyn dim ond 50 o ddefaid mae fy ngwraig Veronica a finnau'n cadw. Roeddwn wedi gweld bod edrych i'r dyfodol yn well gyda choed; gallwch weld y galw amdano yn y dyfodol, galw na fydd yn pallu. Mae'n anoddach gydag wyn, gan nad oes sicrwydd faint o arian y byddwch yn derbyn amdanynt.

Mae pobl yn dweud bod ffermwyr yn erbyn plannu coed, ond rydw i wedi bod yn aelod o undebau ffermio am flynyddoedd, a byddwn yn dweud bod ffermwyr yn ddigon parod i blannu os yw'n gwneud synnwyr economaidd. Maen nhw'n eithaf agored i'r syniad.

Hanner canrif yn ϕcafodd fy nheulu eu talu i glirio'r tir yma, gan fod y ffocws ar gynhyrchu cymaint o fwyd â phosib, er mwyn bod yn hunan-gynhaliol.

Heddiw, mae'r heriau yn rhai gwahanol. Mae ffermwyr yn ymwybodol o'r amgylchedd, ac mae plannu coed yn cynnig iddynt y cyfle i helpu taclo newid hinsawdd drwy ddal a storio carbon o'r atmosffer.

Os yw hynny'n siwtio busnes eich ffarm, ewch amdani – mae'r wobr yn un ariannol ac amgylcheddol.

Mae sawl ffrind yn y cwm yn plannu coed ar dir sy'n anodd i'w bori – 20 erw yma, 30 erw acw (rhwng 8 a 12 hectar). Mae ffermwyr yn arallgyfeirio oherwydd bod rhaid iddynt wneud hynny.

Arian yw'r unig rhwystr; rhaid dodi cyllid amgen yn yn ei le yn lle'r arian 'rydym yn derbyn o Ewrop ar hyn o bryd, neu fydd hi'n anodd cwrdd â chostau hirdymor cynnal a chadw'r coed.

ASTUDIAETH ACHOS

# Cwm Fagor

Mae Matt Jones o gwmni Goleuadau Thorlux (rhan o FW Thorpe Plc),  yn disgrifio'r ffordd y mae'r cwmni wedi plannu coetir yng Nghwm Fagor,  ger Devauden, Sir Fynwy, er mwyn gwrthbwyso ei allyriadau carbon.



Ar ôl y gaeaf nesaf (2021-22), byddwn wedi plannu bron 200,000 o goed ar safle yn agos i 80 hectar (tua 200 erw) yng Nghwm Fagor.

Hwn fydd penllanw prosiect sydd wedi gweld bron 150,000 o goed yn cael eu plannu, coed a fydd yn tynnu tua 32,000 tunnell o garbon o'r atmosffer pan fyddant wedi aeddfedu. Bydd yr effaith honno yn codi'n sylweddol wrth bod y coed ychwanegol yn cael eu plannu – gyda'r nod parhaus o gydbwyso allyriadau'r busnes.

'Rydym yn gwmni cynhyrchu goleuadau ac wastad yn chwilio am ddatrysiadau sy'n gynyddol rhad-ar-ynni, ond yn cydnabod bod y trydan sydd ei angen at ddibenion goleuo yn cael effaith – dyna paham roeddwn am wneud rhywbeth i wrthbwyso hynny.

Dechreuodd hyn yn 2008 pan ddywedodd ein Rheolwr Gyfarwyddwr Mike Allcock (ein Cadeirydd erbyn hyn) ei fod am i'r cwmni gael effaith amgylcheddol positif – oherwydd taw dyna oedd y peth cywir i'w wneud. Roeddwn am ddangos i'n cwsmeriaid ein bod am ofalu am yr amgylchedd ac wedi ystyried amrywiol opsiynau, gan ddewis plannu coed.

Roedd hyn yn cynnig ffordd bositif o wrthbwyso ein hallyriadau ac hefyd creu rhywbeth a oedd yn cael ei weld yn amgylcheddol gyfeillgar. Mae hefyd wedi dod â buddion ychwanegol, gan gynnwys cynnal bywyd gwyllt (mae'r safle wedi denu adar sy'n nythu ac adar ysglyfaethus) ac yn helpu atal llifogydd.

Roeddwn wedi cydweithio gyda Pryor & Rickett i ddod o hyd i safle, ac wedi prynu Cwm Fagor yn yr haf 2008. Roddent wedi ein helpu, ers 2009,  i ddatblygu cynllun ar gyfer y safle a, dros y blynyddoedd 'rydym wedi plannu cymysgedd o goed coniffer a rhywogaethau llydanddail.

Mae hyn wedi cynnwys ffynidwydd Douglas, sbriwsen Norwy, cedrwydd cochion, gwern, deri, coed cyll a cheirios duon. Byddwn yn cwympo rhai o'r coed coniffer, a blannwyd i storio carbon yn gyflymach, a'u gwerthu fel pren. Ein nod yn yr hirdymor yw creu coedwig sy'n cynnwys, yn bennaf, coed llydanddail.

Roeddwn wrth ein boddau i gael ein dewis fel safle cyntaf Côd Carbon Coetiroedd Cymru, i fesur y carbon sy'n cael ei gadw ar y safle ac i amlygu'r buddion lliniaru newid hinsawdd sy'n dod o blannu coed.

Mae plannu'r coetir yng Nghwm Fagor wedi creu teimlad positif iawn ynghylch ein busnes. Mae ein cwsmeriaid wir yn ei hoffi.

Mae'r diddordeb mewn plannu coed wedi cynyddu yn gyflym iawn, ac mae gwleidyddion ar draws y DU yn ei hybu – am resymau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Ein penderfyniad nesaf yw a ddylen ni ystyried plannu coedwig arall.

EIN MANIFFESTO

# FFOCWS PUM-PWYNT I GOEDWIGAETH

**1 ARWEINYDDIAETH WLEIDYDDOL**

Mae Confor yn galw am ymrwymiad clir at y targedau plannu drwy warantu'r cyllid sy'n ateb y galw, a gosod llwybr clir er mwyn cwrdd â'r targed o 4,000 hectar erbyn 2025.

I wireddu'r targedau hyn mae angen ymrwymiad parhaus i adeiladu hyder yng nghadwyn gyflenwi'r diwydiant.

**2 GWNEUD PLANNU COED YN HAWS**

Symleiddio'r prosesau gwneud ceisiadau a derbyn cymeradwyaeth gan weithredu ar ganfyddiadau Fforwm Rheoli Tir Cymru.

**3 BUDDSODDI MEWN SGILIAU COEDWIGAETH**

Buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen i gyrraedd y targedau plannu coed, gan annog aelodau newydd i ymuno â'r diwydiant drwy brentisiaethau a dargedir a chynlluniau hyfforddi y sector gwledig.

**4 BUDDSODDI MEWN TECHNOLEG**

Buddsoddi mewn technoleg er mwyn cefnogi datblygiad diwydiant coedwigaeth a phren gwerth uchel. Mae ymateb enfawr y diwydiant i'r Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn dangos bod busnesau o bob maint yng Nghymru am addasu a buddsoddi i gwrdd â'r her o goedwigo yng Nghymru.

**5 DEFNYDDIO MWY O GOED CYMRU**

Ychwanegu mwy o werth cymdeithasol a charbon i bren Cymru drwy ei ddefnyddio, yn lle dur a choncrit, at waith adeiladu – tra'n cydnabod bod pren yn ddefnyddiol yn gyffredinol, i wneud ffensys, paletau a chynhyrchion eraill, ac yn darparu nifer sylweddol o swyddi gwledig.

# THE BENEFITS OF MODERN FORESTRY

## THE MANY BENEFITS OF MODERN FORESTRY

Confor
Promoting forestry and wood

**RHOI HWB I'R ECONOMI**
Mae'r diwydiant coedwigaeth yn werth £2bn y flwyddyn i economi y DU

**AMSUGNO CARBON**
Mae coed sy'n tyfu yn amsugno carbon, ac yn ei gloi mewn cynnyrch pren

**CREU SWYDDI YN G NGHEFN GWLAD**
Mae coedwigaeth yn cynnal 80,000 o swyddi yn y DU, yn aml mewn mannau gwledig, lle nad oes ond ychydig o gyfleoedd eraill am gyflogaeth,

**O FUDD I AMAETH**
Gall coedwigaeth ar ffermydd defaid gynyddu'r enillion o'r tir ac helpu llesiant yr anifeiliaid

**LLEIHAU RISG LLIFOGYDD**
Gall plannu coed ar yr ucheldir leihau'r risg o lifogydd mewn cymunedau arfordirol

**LLEFYDD I GRWYDRO YNDDYNT**
Mae coedwigoedd yn darparu lllefydd i ymarfer corff ac adloniant, ac o fudd i iechyd corfforol a iechyd meddwl

**CARTREFI I FYWYD GWYLLT**
Mae coedwigoedd yn gartref i fywyd gwyllt, megis y Wiwer Goch, Gwyddweilch a llawer o rywogaethau prin eraill

Confor
Promoting forestry and wood
Hyrwyddo coedwigaeth a choed

Confor yw llais y diwydiant coedwigaeth a defnyddwyr coed ac mae'n cynrychioli busnesau ar draws y gadwyn gyflenwi – o feithrynfeydd tyfu coed ifanc i gwmnïau sy'n dylunio, plannu, rheoli a chywain coedwigoedd, i broseswyr a defnyddwyr coed.

Os am wybodaeth bellach cysylltwch ag Anthony Geddes, Rheolwr Cenedlaethol Cymru Confor, os gwelwch yn dda:
Ffôn: 07494 079305
E-mail: anthony@confor.org.uk
Twitter: @Confor W